Thomas Charles a'r Ysgol Sul

Cysyniadau:	**Meddwl am eraill, brwdfrydedd, dyfalbarhad, cydweithio.**
Amcan:	**Dangos fel y daeth ymdrech unigolyn i ddysgu plant a phobl i ddarllen.**
Cyfarpar:	**Geiriau ar y bwrdd gwyn, Beibl.**

Cyflwyniad:

● Heddiw rydym am fynd yn ôl i'r flwyddyn 1780.

Mae dyn ifanc newydd symud i fyw i dref y Bala. Mae o newydd briodi â Sali, merch sy'n cadw siop yn y Bala. Enw'r gŵr ifanc ydi Thomas, Thomas Charles. Pregethwr ydi Thomas ac mae'n awyddus iawn i blant y Bala fedru dysgu darllen er mwyn iddyn nhw fedru darllen y Beibl.

Mae Thomas wedi paratoi llyfr i'r plant i ddysgu darllen. Yn y llyfr mae'r wyddor, geiriau a brawddegau. Geiriau byr ydi'r rhai cyntaf a brawddegau byrion ond mae'r geiriau a'r brawddegau yn mynd yn hirach ac yn hirach.

● Dowch i ni weld fedrwch chi ddarllen rhai o'r geiriau a'r brawddegau.

Dyma rai o'r geiriau a'r brawddegau:

Ei, Ar, Ac, Do
Af ar ei ôl
Duw, byw, bod
Duw da yw ein Duw ni.
cant, dwfn, glas
cad-wyn, breich-iau, ar-swyd
Cariad ni wna ddrwg i neb.
ty-wyll-wch, dy-wed-wn
gwa-han-glwyf-us
dir-gel-ed-ig-aeth

Stori:

Deg oed oedd Ifan pan ddywedodd ei dad wrtho fod dyn dieithr wedi dod i'r pentref.

'Wyddost ti fod Thomas Charles yn dod i ymweld â ni ddiwedd yr wythnos?'

'Pwy ydi Thomas Charles?' gofynnodd Ifan.

'Wel, mae Thomas Charles yn athro a hefyd yn bregethwr. Ac mae'n dod draw i'n dysgu ni i ddarllen y Beibl.'

'Ond fedra i, na neb hyd y gwn i, ddarllen,' meddai Ifan.

'Dyna pam mae o'n dod yma. Mae o'n mynd i'n dysgu i ddarllen. Ac mi ydw i wedi penderfynu agor y sgubor iddo. Dwi'n siŵr y bydd cannoedd o bobl yn dod draw.'

Roedd pawb yn y pentref yn edrych ymlaen am ymweliad Mr Charles fel roedd pawb yn cyfeirio ato. Pan ddaeth y noson heibio roedd y sgubor yn llawn. Soniodd, i ddechrau, fod y Beibl yn bwysig ac roedd ganddo becyn o Feiblau i'w gwerthu. Ond doedd fawr neb yn eu prynu gan eu bod mor ddrud.

'Ond,' meddai Mr Charles, 'mae gen i rywbeth am ddim i chi.' Wrth ei ochr roedd dyn ifanc yn sefyll. 'Dyma William Rhys' meddai Mr Charles. 'Mi fydd Mr Rhys yn aros yma am dipyn o amser. Gan nad oes ysgol yn y pentref y fo fydd eich athro. Y fo fydd yn eich dysgu i ddarllen y Beibl.'

Roedd y bobl i gyd wedi rhyfeddu. Athro yn dod i fyw i'r pentref i ddysgu'r pentrefwyr i gyd, plant ac oedolion, i ddarllen y Beibl. Cafodd Mr Charles a Mr Rhys groeso mawr y noson honno. Ac roedd Ifan mor falch fod ei dad wedi rhoi benthyg y sgubor i'r pentrefwyr. Ac yn y sgubor honno yn cynhaliwyd yr ysgol gyntaf yn y pentref.

Trafodaeth bellach:

- Fedrwch chi feddwl am bobl mewn pentref cyfan heb fedru darllen?

- Sut ddyn oedd Thomas Charles?

- Beth am y syniad o un athro i bentref cyfan a hynny i ddysgu'r plant a'r oedolion i ddarllen?

Emyn: Un cam bychan: Mwy o Glap a Chân 81

Dyfyniad o'r Beibl:

Hanes Iesu Grist yn darllen yr Ysgrythurau yn Nasareth:
A daeth i Nasareth, lle cafodd ei fagu, a mynd i'r synagog ar y Saboth fel roedd yn arfer ei wneud. Safodd ar ei draed i ddarllen o'r ysgrifau sanctaidd. Sgrôl proffwydoliaeth Eseia gafodd ei rhoi iddo ...

Luc 4:16-17 beibl.net

Munud i feddwl:

Nid dyletswydd yw darllen ond pleser pur.
Mae darllen yn agor y drysau i fydoedd newydd a chyffrous.

Myfyrdod/Gweddi:

O Dduw, diolch i ti am waith pobl fel Thomas Charles a'i debyg. Cofiwn hefyd am waith yr Ysgol Sul yng Nghymru heddiw a diolch fod yna athrawon sy'n barod i'n helpu i ddysgu darllen. Diolch. Amen.